OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 Rhif 285 (Cy. 54)

TRETHI, CYMRU

Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018

Gwnaed - - - -	*26 Chwefror 2018*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*5 Mawrth 2018*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 188 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

Diwygio Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

2. Yn Atodlen 1 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015(**2**) (awdurdodau llywodraeth ganolog), ar ôl "Welsh NHS Bodies" mewnosoder—

"The Welsh Revenue Authority".

Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010

3. Yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**3**) (awdurdodau cyhoeddus: awdurdodau Cymreig perthnasol), o dan y pennawd "other public authorities", cyn "The Auditor General for Wales or Archwilydd Cyffredinol Cymru." mewnosoder—

"The Welsh Revenue Authority or Awdurdod Cyllid Cymru."

(**1**) 2016 dccc 6.
(**2**) O.S. 2015/102, a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/275; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**3**) 2010 p. 15.

Diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015

4. Yn yr Atodlen i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015(**4**) (swyddi sy'n anghymhwyso'r deiliad rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru), mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y lle priodol yn y tabl—

"Awdurdod Cyllid Cymru	Cadeirydd ac aelodau a benodwyd o dan adran 3(1)(b) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016".

Diwygio Deddf Enillion Troseddau 2002

5. Mae Deddf Enillion Troseddau 2002(**5**) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn adran 47A(2)(**6**) (adrannau 47B i 47S: ystyr "appropriate officer"), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(b) yn adran 47G(3)(c) (cymeradwyaeth briodol), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(c) yn adran 68(3)(c) (ceisiadau ac apelau), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(d) yn adran 290(4)(c)(**7**) (cymeradwyaeth ymlaen llaw), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(e) yn adran 303A(1)(**8**) (ymchwilwyr ariannol), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(f) yn adran 352(7)(**9**) (gwarantau chwilio ac ymafael), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(g) yn adran 353(11)(**10**) (gofynion pan na fo gorchymyn cyflwyno ar gael), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(h) yn adran 378(2)(d) (uwch-swyddogion priodol mewn ymchwiliad atafaelu), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(i) yn adran 378(3AA)(b)(**11**) (uwch-swyddogion priodol mewn ymchwiliad arian parod dan gadwad), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers";

(j) yn adran 378(3B)(**12**) (swyddogion priodol mewn ymchwiliad arian parod dan gadwad), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers"; a

(k) yn adran 378(6)(c) (uwch-swyddogion priodol mewn ymchwiliad gwyngalchu arian), ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the Welsh Ministers".

(**4**) O.S. 2015/1536, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) 2002 p. 29.
(**6**) Mewnosodwyd adrannau 47A i 47S gan adran 55(1) a (2) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26).
(**7**) Mewnosodwyd adran 290(4)(c) gan adran 79 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (p. 27), a pharagraffau 1 a 3(1) a (2) o Atodlen 11 iddi.
(**8**) Mewnosodwyd adran 303A gan adran 79 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, a pharagraffau 1 a 13 o Atodlen 11 iddi.
(**9**) Mewnosodwyd adran 352(7) gan adran 80(2) o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.
(**10**) Mewnosodwyd adran 353(11) gan adran 80(4) o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.
(**11**) Mewnosodwyd adran 378(3AA)(b) gan adran 49(b) o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), a pharagraffau 24 a 27(1) a (2) o Ran 2 o Atodlen 19 iddi.
(**12**) Mewnosodwyd adran 378(3B) gan adran 80(8) o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.